



Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn cynnwys nifer o bartneriaid sydd â gwybodaeth, profiad a brwdfrydedd helaeth ynghylch bioamrywiaeth y sir. Fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ac mae wedi'i sefydlu ers mwy nag 20 mlynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnal cymysgedd cyfoethog o wahanol [gynefinoedd](#) sy'n ffurfio ein tirweddau, y dylanwadwyd ar y rhan fwyaf ohonynt gan hanes hir o weithgarwch dynol ac arferion rheoli tir. Pa un a ydynt dros ardaloedd mawr neu fach, mae pob un o'n cynefinoedd amrywiol, a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt, yn ychwanegu at gyfoeth bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Maent i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a llesiant ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw.

Nodwyd yn adroddiad [Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2019](#) fod newid sylweddol wedi bod ym mywyd gwyllt Cymru yn ystod y degawdu diwethaf, a bod tystiolaeth o ddirywiad cyffredinol yn yr amrywiaeth o rywogaethau ac yn hyd a lled cynefinoedd naturiol a lled-naturiol. Gwir y gair yn Sir Gaerfyrddin:

- mae **tegeirian y fign galchog** wedi'i cholli o'n cynefinoedd arfordirol gan fod y gwactodau gwlyb yn y twyni tywod wedi diflannu;
- aderyn bridio prin a lleol yn y sir yw'r **gylfinir** bellach (er ei fod yn ymweld â'n harfordir yn fwy cyson yn y gaeaf) oherwydd colled cynefinoedd nythu addas mewn glaswelltiroedd yn yr ucheldir a'r iseldir;
- mae cofnodi blynyddol wedi dangos dirywiad parhaus yn y **brithribin brown** (math o löyn byw) mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin – sy'n gadarnle i'r rhywogaeth brin hon. Mae'r glöyn byw yn dal i ffynnu cymaint gwell yn Nyffryn Teifi, lle nad yw cloddiau'n cael eu torri i'r fath raddau ar y cyfan, a lle gadewir llonydd yn aml i'r ddraenen ddu am flynyddoedd.
- mae **corsydd**, sy'n gallu storio carbon a dŵr, yn brin yn y sir bellach, ac wedi'u hynysu yn y dirwedd amaethyddol ehangach. Maent wedi cael eu draenio, eu plannu neu eu colli er mwyn datblygu arnynt.
- rydym yn debygol o weld newidiadau sylweddol yn ein coetiroedd a'n perthi yn sgil y **clefyd coed ynn**.

Mae adroddiad rhynglywodraethol 2019 ([asesiad IPBES 2019](#)) wedi dangos y gydbertynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant dynol. Dylai unrhyw fframwaith lleol ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, a hefyd ystyried sut gall ein hamgylchedd naturiol helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.



Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau maent yn ymgymryd â nhw, yn arwain at ganlyniadau sy'n helpu i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol, ac yn aml at fanteision lawer sy'n gwella llesiant y bobl sy'n byw yma. Mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau nifer o gynlluniau cenedlaethol a lleol, sydd â nodau ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y fersiwn drafft o [Gynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin](#) sy'n cyfrannu at y strategaeth fioamrywiaeth genedlaethol a'r cynllun gweithredu dros Gymru sy'n gweithio tuag at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau.
- [Amcanion Llesiant](#) Cyngor Sir Gaerfyrddin a [Chynllun Llesiant](#) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.


Hefyd mae [Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn pennu dyletswydd i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' pan fo hynny'n rhan o'u swyddogaethau cymwys a cheisio 'hyrwyddo cadernid ecosystemau'. Mae'r Cyngor wedi paratoi Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu ei wasanaethau, ac adroddwyd ynghylch hyn i Lywodraeth Cymru.

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn ddull cyflawni allweddol sy'n gallu helpu i ddarparu ffofocs lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn.


Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt!

**Crynodeb yw hwn o rai o gyflawniadau'r partneriaid yn 2019, a hynny gan gydweithio'n aml, o ran gwarchod a gwella'r ystod helaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.**


## MAE BIOAMRYWIAETH CYMRU YN DIRYWIO. ERS 1970 MAE LLAI O FYWYD GWYLLT MEWN LLAI O LEOEDD.




**ERS 1970 YN Y DU...**  
Mae mwy o rywogaethau wedi gweld eu poblogaethau'n lleihau na chynyddu:



**YNG NGHVMRU...**  
Rydym wedi gweld newid mawr o ran lle mae bywyd gwyllt i'w gael



[www.nbn.org.uk/stateofnature2019](http://www.nbn.org.uk/stateofnature2019)



## MAE NEWID HINSAWDD YN CAEL EFFAITH GYNYDDOL AR NATUR YN Y DU.





## Partneriaid Gweithgaredd

Mae llwyddiant y gwaith o drawsleoli gwair gwyrdd wedi bod yn un o uchafbwyntiau bioamrywiaeth **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** yn 2019. Mewn 3 blynedd yn unig, mae porfeydd gwair wedi cael eu trawsnewid yn ddolydd gwair llawn tegeirian drwy ddefnyddio techneg gymharol syml a allai helpu i weddnewid dolydd ledled Sir Gaerfyrddin dros y blynedd nesaf. Mae ymchwil wyddonol a arweinir gan yr Ardd wedi bod yn darganfod pa bryfed peillio sy'n mynd i blanhigion ar gyfer paill a neithdar, gan arwain at fwy o eiriolaeth o ran yr angen i bobl adael lleoedd gwyllt ar eu tir. Mae cyrsiau addysgu newydd a diwrnodau gweithgareddau â thema a gynhelir gan brosiect yr Ardd sef Tyfu'r Dyfodol wedi helpu i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o blanhigion gwyllt, pryfed peillio, cennau, ffyngau a garddio cynaliadwy. Er bod prosiect uchelgeisiol yr Ardd, sef Adfer Parcdir, wedi arwain at adfer tri llyn, dechreuodd gwirfoddolwyr yr Ardd brosiect hirdymor i fonitro newid yn yr hinsawdd drwy fonitro ffenoleg 14 o wahanol rywogaethau coed brodorol. Drwy agor Banc Hadau Cenedlaethol Cymru, mae'r Ardd hefyd wedi cychwyn ar brosiect cadwraeth hirdymor sydd â'r nod o gadw cofnod pendant o holl blanhigion brodorol Cymru.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Yn ystod y gwanwyn/haf eleni, bu Swyddog Bioamrywiaeth **Cyfoeth Naturiol Cymru** yn gweithio ar y cyd â **Chyngor Sir Caerfyrddin** (CSC) a pherchnogion busnes lleol ar Barc Busnes Cross Hands i wella bioamrywiaeth leol.

Adeiladwyd y Parc Busnes ar laswelltir niwtral o ansawdd uchel, ac mae gweddillion y cynefin hwn i'w gweld o gwmpas y parc. Gofynnwyd i berchnogion busnes fabwysiadu trefn ystyriol o ran torri gwair er mwyn galluogi'r tegeirianau a'r planhigion nodedig eraill i ffynnu dros fisoedd yr haf. Sicrhodd CSC hefyd fod rhannau o'r Parc a oedd o dan ei berchnogaeth yn cael eu rheoli'n briodol. Gosodwyd arwyddion o amgylch y Parc i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun. Er gwaethaf rhywfaint o amheuaeth gychwynol gan rai perchnogion busnes, mae'r fenter wedi bod yn llwyddiannus iawn ac wedi cael ymateb cadarnhaol, sydd wedi arwain at arddangosfa brydferth o flodau a manteision amlwg i bryfed peillio. Rydym yn gobeithio ehangu'r cynllun yn y blyneddoddi i ddod.

Yn ogystal, mae ein gwaith ar brosiectau Rhywogaethau Anffodrol Goresgynnol gan gynnwys rheoli mincod, efwr enfawr a Jac y Neidiwr, yn parhau. Ni fyddai'r prosiectau hyn yn bosibl heb gydweithio â phartneriaid a chymorth gwerthfawr gan wirfoddolwyr.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae corysdd yn gynefinoedd pwysig, sy'n gartref i amrywiaeth o blanhigion prin, a gallant hefyd helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy gadw carbon yn y mawn. Yn lleol, gallant hefyd helpu i osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, e.e. llifogydd, a'u heffeithiau economaidd.

Ym **Mharc Gwledig Llyn Llech Owain a Chomin y Figyn** (ger Llanfynydd) mae Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru (sy'n cael ei gynnal gan Barc Cenedlaethol Eryri) wedi ariannu **Cyngor Sir Caerfyrddin** i wneud gwaith pwysig i helpu i reoli'r cynefinoedd corysdd sydd yno. Yn Llyn Llech Owain mae coed bach a phrysgwydd wedi cael eu gwaredu o'r corysdd a'r ffosydd draenio sydd wedi'u blocio i helpu i gadw dŵr yn y corysdd. Bydd hyn yn helpu i adfer y gymuned gors fregus a'r migwyn sy'n ffurfio mawn, y mae angen cyflyrau gwlyb arnynt i ffynnu. Bydd y ffens ar Gomin y Figyn yn caniatáu pori ar y safle hwn am y tro cyntaf mewn blyneddoddi, gan helpu i adfer y cynefinoedd gwlypdir a diogelu safleoedd rhag cerbydau oddi ar y ffordd.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru



Parc Busnes Cross Hands



Mharc Gwledig Llyn Llech Owain

## Partneriaid Gweithgaredd

Drwy gael cyllid gan CNC a Dŵr Cymru, ym mis Gorffennaf 2019 dechreuodd **Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru** ar waith prosiect ar raddfa dalgylch yn ardal Tywi i wella mynediad pysgod mudol i isafonydd silio pwysig yn yr afon hon a fu unwaith yn afon bysgota dda.

Mae'r prosiect hwn yn ymateb i'r gostyngiad yn niferoedd Eog yr Iwerydd a sewin (brithyll môr) sydd wedi'u cofnodi dros ddegawdau lawer. Er bod ymdrechion i leddfu'r pwysau ar y môr, yn aberoedd afonydd Cymru, a gwella ansawdd dŵr yn gyffredinol, mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur a'r sefydliadau pysgodfeydd yn nodi bod gwaith gwella cynefinoedd yn bwysig iawn i gynyddu'r cyfnodau rhwng pysgod mân a gleisiad (ifanc i oedolion ifanc) yng nghylch bywyd y pysgod. Mae hyn yn ei dro yn hybu nifer y pysgod sy'n dychwelyd yn y blynyddoedd canlynol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei hyrwyddo gan yr Ymddiriedolaeth yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau Gwyddoniaeth Dinasyddion yn y cymunedau sydd i'w cael yn nyfnderoedd y nentydd silio. Y gaeaf hwn, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hel cefnogaeth gan gymunedau a physgotwyr i helpu gyda gwelliannau i gynefinoedd yn y nant, mapio rhywogaethau goresgynnol a'u symud. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chamau eraill ledled Gorllewin Cymru a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd a phartneriaid, gan gyfrannu at welliannau ar raddfa fawr.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Prosiect Caeau Mynydd Mawr** yn parhau i reoli ardal fawr o gynefin ar gyfer britheg y gors yn ardal Cross Hands, dwyrain Sir Gaerfyrddin. Erbyn hyn, mae gan y prosiect dros 130ha o dir sydd ynghlwm wrth gytundebau perchnogaeth neu reoli - ynghyd â dau gytundeb newydd ychwanegol eleni. Nid oedd y naill safle wedi cael eu pori ers sawl blwyddyn, felly gosodwyd ffensys a chafodd gwaith torri gwair ei gyflawni i'w paratoi ar gyfer pori gan ferlod yn y gwanwyn.

Bu'n flwyddyn resymol i frithegion y gors, a chofnodwyd oedolion a gweoedd larfaol ar 12 safle. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd a reolir hefyd yn cynnwys cynefin pathewod, sydd wedi'u cofnodi ar bum safle eleni.

Gan weithio mewn partneriaeth â **PONT** (Pori, Natur a Threftadaeth) ar gyfer prosiect a ariennir drwy grant Llywodraeth Cymru ar gyfer **Gwarchod Glöynnod Byw**, cynhaliodd y prosiect noson pori ar laswelltir corsiog yn un o'r safleoedd sy'n eiddo i'r prosiect yng Ngors-las, gyda'r nod o annog ffermwyr i bori eu glaswelltir corsiog. Cafodd ffermwyr eu hannerch gan amrywiaeth o siaradwyr, eu tywys o amgylch y safle i edrych ar y cynefin a'r gwartheg a oedd yn pori yno a chyfle i fwynhau byrgyr eidion wedi'i wneud o gig eidion a fagwyd ar y safle. Daeth nifer dda i'r digwyddiad, a bwriedir cynnal un arall y mis nesaf.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Prosiect cadwraeth mawr yw **Twyni Byw** i adfywio twyni tywod ledled Cymru. Bydd y prosiect yn adfywio dros 2400 hectar o dwyni tywod, ledled pedair Ardal Cadwraeth Arbennig ar 10 safle yng Nghymru. Gwneir hyn drwy aildrefnu'r twyni i adfer prosesau ecolegol naturiol gyda'r nod o ddod â nhw i gyflwr ffafriol. Yn Sir Gaerfyrddin, mae hyn yn cynnwys twyni yn Nhalacharn-Pentywyn a Thwyni Pen-bre. Hyd yn hyn mae gwaith wedi'i wneud i ddewis lleoliadau addas a chynllunio gwaith ym Mhen-bre, sy'n cynnwys creu llaciau twyni, pantiau a bylchau yn y blaen-dwyni yn y flwyddyn newydd. Yn Nhalacharn-Pentywyn, mae cynllun rheoli prysgwydd wedi'i lunio a'i gymeradwyo gyda'r gobaith o ddechrau'r gwaith o glirio prysgwydd yn y flwyddyn newydd.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------



Cwm Cothi



Caeau Mynydd Mawr



Twyni Byw



Gweithiodd **Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir** gyda sefydliadau celfyddydol Migrations a Soundlands i ddod â darn o gelf sain a gomisiynwyd yn arbennig i Warchodfa Natur Gwlyptiroedd Parc y Mileniwm yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli, a grëwyd gan yr artist o'r Iseldiroedd, Bouke Groen. Roedd hen gloch eglwys yn canu bob hyn a hyn mewn pedwar ciwb consentrig enfawr gwydr. Gellid ystyried sŵn aneglur y gloch fel trosiad ar gyfer sut y mae pobl yn ymddieithrio oddi wrth y larymau sy'n canu yn ein hamgylchedd naturiol. Cafodd y darn ymateb da iawn gan ymwelwyr.

Nod prosiect newydd, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan Dŵr Cymru, yw gwella cynefinoedd yng Ngwlyptiroedd Parc y Mileniwm a gwella'r seilwaith ar gyfer anifeiliaid sy'n pori. Fel rhan o'r prosiect rydym wedi gweithio gyda CABI i gyflwyno gwiddon microsgopig i helpu i reoli'r planhigyn hynod oresgynnol *Crassula helmsii*, fel rhan o'r cynllun prawf i weld pa mor effeithiol yw'r cyfrwng rheoli biolegol newydd hwn.

Mae ein prosiect diweddar i greu cynefinoedd gwlypdir newydd ym Mhantiau Dafen wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yn hyn, gan ddenu cwtiaid torchog a chornchwiglod i fridio yn yr ardal, yn ogystal ag ymweliadau gan rywogaethau prin yn cynnwys pibydd llydandroed gyddfgoch a morwennol wridog.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill y flwyddyn gwelwyd cynnydd o ran bridio cornchwiglod o 11 i 20 pâr o leiaf, yn ogystal â chofnodion o fridio titw'r helyg, tylluanod gwynion a'r gwcw.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru** wedi parhau i hyrwyddo cofnodi biolegol yn y sir drwy gydol 2019. Rydym bellach yn derbyn cofnodion drwy'r ap a lansiwyd y llynedd ac yn parhau i hyrwyddo mynediad cyhoeddus i gronfa ddata Cymru gyfan, Aderyn, sydd wedi tyfu o bron i hanner miliwn o gofnodion eleni. Buom yn cymryd rhan mewn tri diwrnod cofnodi yn y sir, Graigina ger Llanybydder, Carmel (roedd gwarchodfa bywyd gwyllt newydd yn arbennig o ddiddorol), a chynhaliwyd diwrnod ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Canolfan Cofnodion Bannau Brycheiniog ym Mhenygraig Goch lle'r oedd gweoedd larfaol britheg y gors yn cael eu cofnodi am y tro cyntaf. Er mwyn annog cofnodwyr newydd, fe wnaethom brynu camerâu ar gyfer y llwybrau a synhwyrdd ystumod i'w benthg ac rydym yn datblygu gweborth i annog cofnodi rhai rhywogaethau cyffredin sy'n cael eu tangofnodi i wella cwmpas y cofnodion.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae swyddogion **Coed Cymru (CC)** yn Adain Gadwraeth y Cyngor wedi parhau i weithio gyda Western Power i helpu perchnogion tir yr effeithiwyd arnynt gan Gysylltiad Fferm Wynt Fforest Brechfa i wneud gwelliannau ecolegol a thirweddol ar raddfa fechan. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bu swyddogion yn arolygu 47 o brosiectau a oedd yn arwain at daliadau gwerth dros £61,000 i'r tiffeddianwyr hyn. Mae swyddogion wedi parhau i weithio gyda **Coed Cadw a Cyswllt Ffermio** i roi cyngor i dirfeddianwyr preifat ac ymgymerwyd â 60 o ymweliadau cynghori yn cynnwys cyngor ar gynlluniau Glastir, cynlluniau plannu coed Coed Cadw, trwyddedau cwmpo coed a rheoli coetiroedd yn gyffredinol. Cafodd ugain o gynlluniau rheoli coetiroedd eu cynhyrchu gan gynnwys Creu Coetir Glastir, cynllun 'Morewoods' Coed Cadw a thrwyddedau cwmpo coed. Mae swyddogion CC wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu polisi clefyd coed ynn CSC ac wedi rhoi cyngor i dirfeddianwyr sydd â choed y mae'r clefyd hwn wedi effeithio arnynt. Mae swyddogion CC wedi rhoi cyngor ynghylch gwaith cwmpo ac ailstocio coed ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain ac ar hyn o bryd maent yn rhoi cyngor ynghylch gwaith dilynol yn y parc hwn a gwaith yn y dyfodol ym Mharc Gwledig Pen-bre a safleoedd coetir eraill CSC.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------



Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir



Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru

## Partneriaid Gweithgaredd

Eleni, drwy arian a ddyfarnwyd i **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** drwy Gronfa Gymunedol Treth Dirlenwi Llywodraeth Cymru, rydym wedi cyflwyno nifer o fanteision i fywyd gwyllt yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel. Mae gosod seilwaith allweddol wedi ein galluogi ni i rannu'r pori yn adrannau gwahanol. Eleni, rydym wedi newid saith gât ac wedi ychwanegu tri chafn yfed newydd i'r safle.

Rydym wedi rhoi perthi ar ochr y ffordd ac wedi'u gosod yn null trasio a phlethu Sir Gaerfyrddin. Cwblhawyd hyn gyda chyfuniad o ymdrech gan gontractwyr a gwirfoddolwyr ac mae iddo ddau bwrpas sef manteisio i'r eithaf ar botensial bywyd gwyllt y berth, a hefyd cynnal a chadw'r berth er diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Mae'r bwnd ar gors y warchodfa wedi'i wella i'w wneud yn fwy effeithiol o ran dal dŵr yn ôl ac ail-wlychu'r gors. Mae'r prosiect hefyd wedi rhoi amser i staff gyflawni rhywfaint o waith rheoli parhaus hollbwysig, gan gynnwys clirio mieri, rholio rhedyn, a mynd i'r afael â'r broblem o ran Rhywogaethau Goresgynnol Estron megis creigafal a Jac y Neidiwr.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi cynhyrchu canllawiau dwyieithog ar gyfer cynghorau tref a chymuned yn y sir i gynyddu eu hymwybyddiaeth o'u dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chanllawiau ar sut y gallent ystyried hyn fel rhan o'r broses o reoli mannau agored cyhoeddus. Cyfarfu'r Swyddog Bioamrywiaeth â rhai o'r Cynghorau Tref a Chymuned mwy sydd â darnau sylweddol o dir i'w rheoli i drafod rheoli bioamrywiaeth.

Yn ogystal, cynhaliodd **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**, mewn partneriaeth â CSC, sesiwn yn y gerddi ym mis Mehefin ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill ynghylch sut i reoli llecynnau gwyrdd ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Daeth dros 50 o bobl i'r gweithdy i weld sut y gall Cynghorau Tref a Chymuned reoli tir y maent yn gyfrifol amdano mewn ffyrdd y caiff eu mwynhau gan y cyhoedd, sut i hyrwyddo bioamrywiaeth a chadwraeth natur, a sut mae'r tir yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir ac yn aml yn gallu arbed arian. Gwelwyd enghreifftiau o'r dulliau hyn yn y Gerddi a thrwy gyflwyniadau (gan gynnwys prosiect Cyngor Sir Fynwy, *Natur Wylt*, a phrosiect Cyngor Sir Burnley, *Go to the Park*) gwelwyd tystiolaeth o'r manteision.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Gwarchod Glöynnod Byw** yn parhau i weithio i ddysgu mwy am fritheg y gors yn y sir. Yn 2019, dangosodd oddeutu dwsin o sgwariau grid 1km ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin boblogaethau brithreg y gors am y tro cyntaf yn y ddau ddegawd diwethaf. Mae hyn yn cymharu â 22 o sgwariau ychwanegol a welwyd yn y sir yn 2018. Yn y ddwy flynedd, mae nifer yn debygol o fod yn gyntaf newydd/diwedd, gan fod sawl safle wedi cael ei wirio'n rheolaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond heb dystiolaeth o anheddu. Mae Sir Gaerfyrddin wedi datgelu mwy o boblogaethau ychwanegol yn y ddwy flynedd na gweddill Cymru.

O ran brithribinau brown, dangosodd arolygon o'u hwyau fod y glöyn byw wedi cael blwyddyn ragorol yn Nyffryn Teifi, lle y cofnodwyd y nifer uchaf erioed o ran yr wyau y gaeaf diwethaf. Cofnodwyd bod oedolyn benywaidd yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ond mewn mannau eraill nid oedd y glöyn byw wedi gwneud cystal - ymddengys nad oedd y glöyn byw i'w weld mewn safleoedd yn Nyffryn Tywi a gorllewin Caerfyrddin.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------



Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel



Brithribinau brown



## Partneriaid Gweithgaredd

Drwy gael cyllid gan CNC a Dŵr Cymru, ym mis Gorffennaf 2019 dechreuodd **Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru** ar waith prosiect ar raddfa dalgylch yn ardal Tywi i wella mynediad pysgod mudol i isafonydd silio pwysig yn yr afon hon a fu unwaith yn afon bysgota dda.

Mae'r prosiect hwn yn ymateb i'r gostyngiad yn niferoedd eog yr Iwerydd a sewin (brithyll môr) sydd wedi'u cofnodi dros ddegawdau lawer. Er bod ymdrechion i leddfu'r pwysau ar y môr, yn aberoedd afonydd Cymru, a gwella ansawdd dŵr yn gyffredinol, mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur a'r sefydliadau pysgodfeydd yn nodi bod gwaith gwella cynefinoedd yn bwysig iawn i gynyddu'r cyfnodau rhwng pysgod mân a gleisiad (ifanc i oedolion ifanc) yng nghylch bywyd y pysgod. Mae hyn yn ei dro yn hybu nifer y pysgod sy'n dychwelyd yn y blynnyddoedd canlynol.

Mae'r gwaith sy'n cael ei hyrwyddo gan yr Ymddiriedolaeth yn ddelfrydol ar gyfer prosiectau Gwyddoniaeth Dinasyddion yn y cymunedau sydd i'w cael yn nyfnderoedd y nentydd silio. Y gaeaf hwn, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hel cefnogaeth gan gymunedau a physgotwyr i helpu gyda gwelliannau i gynefinoedd yn y nant, mapio rhywogaethau goresgynnol a'u symud. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chamau eraill ledled Gorllewin Cymru a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd a phartneriaid, gan gyfrannu at welliannau ar raddfa fawr.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin** yn dal i ffynnu. Eleni, roedd cyfarfod y gwanwyn yn canolbwyntio ar reoli dolydd a siaradodd tri aelod o Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin am eu profiadau o ran rheoli eu dolydd gan ddefnyddio gwahanol fathau o beiriannau. Cafodd hyn ei ategu gan gynnig Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i ddod i weld eu harbrawf gwair gwyrdd. Rhoddodd staff yr ardd fotaneg gyfle i aelodau Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin gasglu gwair newydd ei dorri o ddolydd Waun Las, sy'n gyfoeth o ran rhywogaethau ac sy'n rhan o'u prosiect gwair gwyrdd. Cafodd deg aelod y cyfle i gasglu gwair i'w wasgaru ar hyd eu caeau eu hunain. Ni wyddys a fydd rhywogaethau newydd yn ymddangos yn y caeau hyn, ond bydd gwaith monitro a rheoli blynnyddol yn ystod y blynnyddoedd nesaf yn datgelu popeth!

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------

Mae **Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru** wedi cael blwyddyn brysur arall. Mae Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru wedi derbyn cyllid ar gyfer prosiect 'Cochion Iach' sy'n ceisio dysgu mwy am y boblogaeth fregus o wiwerod coch yng Nghanolbarth Cymru. Daeth cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Menter Gymunedol Treth Dirlenwi Llywodraeth Cymru. Bydd Cochion Iach yn canolbwyntio ar dair coedwig, gan gynnwys Bryn Arau Duon sydd i'r gogledd-ddwyrain o Bumsaint, a bydd yn edrych ar weithgaredd wiwerod coch drwy ddefnyddio coleri radio i'w dilyn. Dylai hyn helpu i lywio gwaith cadwraeth a datgelu pa rannau o'r goedwig sydd fwyaf gwerthfawr i wiwerod coch. Bydd y prosiect yn gweithio gyda gwirfoddolwyr lleol, ysgolion a phrifysgolion. Yn gynnar ym mis Medi, cafodd y Prosiect wybod bod wiwer goch wedi'i gweld yn Fforest Brechfa, sef coedwigfa fawr sy'n cynnwys bron i 6000 Ha. Ers y 1980au, prin y gwelwyd gwiwer goch ym Mrechfa, felly gall y llun o wiwer farw a gafodd ei dal gan gath fod yn arwydd bod poblogaeth yn bodoli yma. Gosodwyd camerau ar y llwybrau yn y gobaith o ddod o hyd i ragor o wiwerod coch.

Cynllun Adfer Natur Cymru amcanion	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro
------------------------------------	------------	-----------------------------	----------	------------------------------------	-----------------------



Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru



Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin



Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru